# Gwybodaeth yn ymwneud â'r Gwasanaeth Cyfieithu.

18/01/2012

Annwyl

**Cais am Wybodaeth**

Diolch am eich cais a ddaeth i law ar 6 Hydref, pan wnaethoch ofyn:

*Beth yw'r gost flynyddol o ddarparu Gwasanaeth Cyfieithu Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan gynnwys costau staff mewnol a chyfieithu allanol?*

Mae Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gyfrifol am gyfieithu testun, golygu a phrawfddarllen a chyfieithu ar y pryd. Mae'r holl ddogfennau sy'n ymwneud â busnes ffurfiol y Cynulliad ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Caiff deunyddiau ysgrifenedig ar gyfer y cyhoedd hefyd eu cynhyrchu yn Gymraeg ac yn Saesneg. Darperir cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg yn yr holl drafodion swyddogol.

Caiff y rhan fwyaf o'r gwaith cyfieithu testun a chyfieithu ar y pryd ei wneud gan y tîm mewnol. Mae cytundeb wrth gefn ar gael er mwyn delio â galw gormodol am waith cyfieithu. Caiff rhai tasgau cyfieithu testun penodol eu hanfon allan oherwydd natur y gwaith ac oherwydd bod angen eu cwblhau dros nos.

Caiff gwiriadau sicrhau ansawdd eu gwneud yn rheolaidd ar gyfer y categorïau hynny o waith.

Dyma gost flynyddol gwasanaeth cyfieithu Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer staff mewnol a chyfieithu allanol:

| **Cost Gwasanaeth Cyfieithu (£)** | | | |
|---|---|---|---|
| **Blwyddyn Ariannol** | **2008/09** | **2009/10** | **2010/11** |
| **Costau Cyfieithu Allanol** | 346,672 | 292,553 | 185,779 |
| **Costau Staff** | 405,543 | 459,559 | 512,796 |
| **Costau Teithio a Chynnal** | 26,667 | 16,768 | 8,930 |
| **Cyfanswm** | 778,882 | 768,880 | 707,505 |

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 029 20 821813
E-bost/Email:Alison.Rutherford@wales.gov.uk

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn http://www.cynulliadcymru.org/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/abt-foi-cop-pub.htm. Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn.

Os nad wyf wedi dilyn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth yn gywir yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn http://www.cynulliadcymru.org/conhome/con-complaint.htm. Rhowch wybod i mi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Yn gywir

Y Cydgysylltydd Mynediad at Wybodaeth
Cynulliad Cenedlaethol Cymru